CYHOEDDIAD

# Hawliadau rhan 1: A487 ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd

Gallwch hawlio o 18 Chwefror 2023 hyd 18 Chwefror 2029 am ddibrisiant tir yn sgil addasu'r briffordd.

Cyhoeddwyd gyntaf: 23 Mawrth 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 23 Mawrth 2022

## Deddf Digollediad Tir 1973

### A487: ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd

1. Mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn rhoi hysbysiad bod y darn o briffordd a nodir yn yr Atodlen isod wedi'i hagor i draffig cyhoeddus ar 18 Chwefror 2022. Gelwir y dyddiad hwnnw yn "ddyddiad perthnasol".

2. O dan Ran I o Ddeddf Digollediad Tir 1973 (fel y'i diwygiwyd) (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel y Ddeddf), gall unrhyw un sydd â buddiant cymhwyso mewn tir

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/hawliadau-rhan-1-a487-ffordd-osgoi-caernarfon-i-bontnewydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

hawlio iawndal os yw gwerth y buddiant hwnnw wedi'i ddibrisio gan fwy na £50 gan ffactorau ffisegol a achosir gan y defnydd o'r briffordd a newidiwyd. Y ffactorau ffisegol yw sŵn, dirgryniad, arogl, mygdarthau, mwg a goleuadau artiffisial ac unrhyw sylwedd solet neu hylifol sy’n cael ei ryddhau i'r tir.

3. Y diwrnod cyntaf y gellir hawlio iawndal yw'r diwrnod ar ôl i ddeuddeg mis ddod i ben o'r dyddiad perthnasol ac fe'i gelwir yn "ddiwrnod hawlio cyntaf". Y diwrnod hawlio cyntaf ar gyfer y briffordd hon a newidiwyd yw 18 Chwefror 2023. Ni ellir gwneud hawliad cyn y diwrnod hawlio cyntaf, ac eithrio'r amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 4 yr hysbysiad hwn.

4. Gellir gwneud hawliad yn ystod y cyfnod rhwng y dyddiad perthnasol a'r diwrnod hawlio cyntaf dim ond pan fo'r hawlydd wedi gwneud contract i werthu ei fuddiant/buddiant yn yr eiddo neu, yn achos eiddo nad ydynt yn anheddau, i roi tenantiaeth. Rhaid gwneud yr hawliad rhwng llunio’r contract a chyn i'r eiddo gael ei werthu neu’r denantiaeth ei rhoi. Ni all Gweinidogion Cymru dderbyn hawliad ar ôl i eiddo gael ei werthu neu denantiaeth ei rhoi. Ni thelir unrhyw iawndal mewn perthynas â hawliad o'r fath cyn y diwrnod hawlio cyntaf.

5. Yn rhinwedd adran 19(2A) o'r Ddeddf ac o dan Ddeddf Cyfyngiadau 1980, bydd hawliad yn cael ei wahardd os nad yw'r hawlydd wedi gwneud y canlynol o fewn chwe blynedd o'r diwrnod hawlio cyntaf, gan gynnwys y dyddiad hwnnw: a) Wedi cytuno'n ysgrifenedig ar gynnig o iawndal (gan gynnwys unrhyw brisiad rhesymol a threuliau cyfreithiol) a wneir gan Weinidogion Cymru yn ysgrifenedig; neu b) Os na cheir cytundeb felly, mae wedi’i gyfeirio at y Tribiwnlysoedd Tiroedd er mwyn gofyn iddynt benderfynu ar yr iawndal. Pan fo hawliad wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cyfyngiadau 1980, ni all fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru dalu iawndal mwyach.

6. Ni ellir hawlio iawndal o dan Ran I o'r Ddeddf lle caffaelwyd rhan o'r eiddo ar gyfer cyflawni'r newidiadau i'r briffordd. Yn hytrach, telir iawndal am dir a gaffaelwyd o dan reolau gwahanol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/hawliadau-rhan-1-a487-ffordd-osgoi-caernarfon-i-bontnewydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

7. I hawlio iawndal o dan Ran I o'r Ddeddf, rhaid bod buddiant cymhwyso yn y tir wedi'i gaffael cyn i'r newidiadau gael eu cwblhau a chyn iddo fod yn agored i draffig cyhoeddus am y tro cyntaf. Rhaid i'r hawlydd hefyd feddu ar y buddiant cymhwyso ar ddyddiad gwneud yr hawliad. Rhaid i'r hawlydd allu dangos tystiolaeth o'i fuddiant/buddiant yn yr eiddo pan fydd Gweinidogion Cymru yn gofyn iddo/iddi wneud hynny. Ni thelir iawndal os na ellir gwirio buddiant cymwys hawlydd yn yr eiddo. Pennir buddiannau mewn tir sy'n gymwys i gael iawndal yn adran 2 o'r Ddeddf.

8. Asesir iawndal drwy gyfeirio at brisiau eiddo sy'n gyfredol ar y diwrnod hawlio cyntaf. Rhoddir ystyriaeth i'r defnydd o'r briffordd a newidiwyd, fel y mae'n bodoli ar y diwrnod hawlio cyntaf. Rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw gynnydd y gellir ei ddisgwyl wedyn o ran defnydd o’r briffordd a newidiwyd yn y cyflwr y mae ar y diwrnod hawlio cyntaf.

9. Gall unrhyw berson sydd â hawl i fuddiant cymhwyso sy'n ystyried bod ganddo/ganddi hawliad o dan y darpariaethau a nodwyd gael rhagor o wybodaeth a ffurflenni hawlio drwy e-bostio **part1claims@llyw.cymru** neu drwy ysgrifennu at y Tîm Hawliadau a Sŵn Rhan 1, Seilwaith Economaidd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu'r cyfeirnod BZ910228-431-1.

10. Mae'r hysbysiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r gyfraith. Ni fwriedir iddo fod yn ddatganiad cyflawn na llawn ohono. Dylai unrhyw un sy'n bwriadu gwneud hawliad ystyried cael cyngor proffesiynol annibynnol.

## Atodlen

Mae darn 9.8km o ffordd newydd bellach wedi'i gwblhau rhwng cylchfan y Goat (cyffordd yr A499/A487) a Chylchfan Plas Menai sy'n cysylltu'r ffordd osgoi hon â ffordd osgoi'r A499 a'r A487 yn y Felinheli.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/hawliadau-rhan-1-a487-ffordd-osgoi-caernarfon-i-bontnewydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Adeiladwyd y ffordd newydd er mwyn;

- ei gwneud hi’n haws teithio heb dagfeydd traffig
- ei gwneud hi'n haws teithio rhwng Penrhyn Llŷn, Porthmadog, Bangor a'r A55
- lleihau llygredd sŵn ac aer i bobl sy'n byw ar hyd yr A487
- ei gwneud hi’n fwy diogel i bobl deithio rhwng trefi
- ei gwneud hi’n haws i gerbydau nwyddau trwm deithio yn yr ardal
- ei gwneud hi’n fwy diogel i deithio rhwng Caernarfon a Bontnewydd drwy gerdded a beicio

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn drwy ffonio Tîm Hawliadau a Sŵn Rhan 1 ar 03000 256475.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/hawliadau-rhan-1-a487-ffordd-osgoi-caernarfon-i-bontnewydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Hawliadau rhan 1: A487 ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/hawliadau-rhan-1-a487-ffordd-osgoi-caernarfon-i-bontnewydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/hawliadau-rhan-1-a487-ffordd-osgoi-caernarfon-i-bontnewydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.